# Y Daith tuag at Gydraddoldeb

## Adroddiad Cryno'r Gynhadledd, 2008

Caeredin Belffast Caerdydd Manceinion Llundain

For Diversity Against Discrimination

www.stop-discrimination.info

# Beth yw'r Daith tuag at Gydraddoldeb?

Roedd **Y Daith tuag at Gydraddoldeb** yn brosiect a gyllidwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, drwy Raglen y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer Cyflogaeth ac Undod Cymdeithasol – Y Daith (2007 – 2013).

Gwaith consortiwm eang o'r mudiadau canlynol yn y sector cynghori oedd y prosiect: Cynghrair Gwasanaethau Cynghori (*Advicenow*), *Advice* UK, *Advice* GI, Cyngor Ar Bopeth, Cyngor Ar Bopeth yr Alban, Cyngor Ar Bopeth Cymru, Cymdeithas Canolfannau Cyngor Ar Bopeth Gogledd Iwerddon, Ffederasiwn y Canolfannau Cyfreithiol a Sefydliad Hawliau Dynol Prydain.

Rhedodd y prosiect rhwng Tachwedd 2007 a Rhagfyr 2008. Ei nod oedd datblygu arbenigedd gwrthwahaniaethu a hawliau dynol, capasiti ac ymwybyddiaeth ymhlith cynghorwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol drwy:

- Ddwyn mudiadau cynghori at ei gilydd i gyfnewid profiadau a dynodi anghenion lleol
- Cynnal cynadleddau cenedlaethol a rhanbarthol i helpu cynghorwyr i adnabod problemau gwahaniaethu a delio â nhw
- Gwefan hawdd ei defnyddio ar gyfer y cyhoedd 'Is that discrimination' (Saesneg yn unig) ar www.isthatdiscrimination.org.uk
- Amrywiaeth o ddefnyddiau ar gyfer gwybodaeth gyhoeddus, gan gynnwys taflen wybodaeth a chylchgronau i hysbysu pobl ynglŷn â'u hawliau
- Creu sylfaen dystiolaeth i ddarparu gwybodaeth ar gyfer Comisiynau Cydraddoldeb cenedlaethol, llywodraethau cenedlaethol, a chyllidwyr cyngor cyfreithiol cenedlaethol.

Cefnogir y rhaglen hon gan Raglen y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer Cyflogaeth ac Undod Cymdeithasol – Y Daith (2007 – 2013).

Nid yw'r Comisiwn yn atebol am unrhyw ddefnydd y gellid ei wneud o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ac nid yw'r cyhoeddiad hwn, o reidrwydd, yn adlewyrchu safbwynt na barn y Comisiwn Ewropeaidd.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: http://ec.europa.eu/employment_social/progress/index_en.html

# Cyflwyniad a chyd-destun

Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y CE 2007/08 a chyfarwyddebau cydraddoldeb eraill y CE wedi'u trosi'n ddeddfwriaeth ddomestig yn y DU drwy amrywiol ddeddfau a rheoliadau cydraddoldeb. Ar ben hynny, mae'r DU wedi cyflwyno mesurau ychwanegol i hyrwyddo cydraddoldeb drwy ddarparu dyletswyddau cyhoeddus cadarnhaol ychwanegol eraill ym maes cydraddoldeb a'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Er gwaethaf yr hanes hir hwn o hawliau cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu, a deng mlynedd ar ôl y Ddeddf Hawliau Dynol ddomestig yn y Deyrnas Unedig, roedd ymchwil a oedd ar gael ar ddechrau'r prosiect hwn yn dangos bod ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch gwrth-wahaniaethu a hawliau dynol, a datrys problemau, yn wael ac am amrywiol resymau, cyfyngwyd ar gapasiti mudiadau cynghori i gefnogi unigolion i ddatrys problemau ynglŷn â gwahaniaethu, cydraddoldeb a hawliau dynol.

Nod y pum cynhadledd – ym Melffast, yng Nghaeredin, yng Nghaerdydd, yn Llundain ac ym Manceinion – oedd dynodi a lleisio'r materion hyn, yn ogystal â hyrwyddo ymwybyddiaeth ac adnoddau, a dynodwyd 11 o argymhellion allweddol ar gyfer llunwyr polisi, cyllidwyr a phobl sy'n rhoi cyngor.

Yr ydym yn gobeithio y bydd llunwyr polisi, cyllidwyr a phobl sy'n rhoi cyngor yn ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion, ac yn mynd ati i ymateb iddynt. Wrth wneud hynny, yr ydym yn credu y byddai'r argymhellion hyn yn fwy o gymorth i wireddu'r darpariaethau ynghylch mynediad at gyfiawnder, megis y rheini a geir yn Erthygl 9 Cyfarwyddeb Fframwaith 2000/78.

Dim ond drwy ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn y bydd geiriau'r Gyfarwyddeb Fframwaith yn cael eu gweddnewid yn llwyr o fod yn fesurau gwrth-wahaniaethu i well cyfleoedd mewn bywyd, cydraddoldeb a hawliau dynol ar waith.

Ceir adroddiad llawn o'r cynadleddau yn www.isthatdiscrimination.org.uk, ac ar wefannau unigol y partneriaid.

# Y Prif Argymhellion

## Argymhellion ar gyfer llunwyr polisi a chyllidwyr

1 Rhaid i'r UE, llywodraethau cenedlaethol a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD/EHRC) a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon (CCGI/ECNI) fynd i'r afael â'r mynediad annigonol ac anghyfartal presennol at gyngor ynglŷn â gwahaniaethu drwy adeiladu capasiti, hyrwyddo partneriaethau effeithiol a darparu lefel uwch o gyllid parhaus. Dylai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, strategaethau i gael mynediad at gyfiawnder a chymorth cyfreithiol i bobl sy'n wynebu pob math o broblemau gwahaniaethu.

2 Dylai'r CCHD, CCGI a'r sector cynghori weithio gyda'i gilydd i ddatblygu strategaeth hyfforddi sy'n sicrhau bod darparwyr gwybodaeth, cynghorwyr cyffredinol a chynghorwyr arbenigol yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddarparu cyngor effeithiol ynglŷn â gwahaniaethu a hawliau dynol.

3 Dylai'r UE, CCHD, CCGI ac eraill sy'n cyllido cyngor ynglŷn â gwahaniaethu, gefnogi pecynnau integredig o gyngor ac addysg gyfreithiol gyhoeddus sy'n cynyddu ymwybyddiaeth a gallu pobl i ddelio â phroblemau gwahaniaethu y dônt ar eu traws, trwy alluogi iddynt weithredu a cheisio cyngor priodol.

4 Dylai llywodraethau cenedlaethol a'r CCHD a CCGI weithio mewn partneriaeth â'r sector cynghori i leihau'r risgiau penodol y mae cleientiaid yn eu hwynebu pan eir ar drywydd achosion gwahaniaethu y tu allan i faes cyflogaeth drwy'r llysoedd.

5 Dylai'r CCHD a CCGI gydnabod y gwahaniaeth y mae cyngor a gorfodaeth leol yn ei wneud i fywydau pobl, ac i hyrwyddo cydraddoldeb yn effeithiol.

6 Dylai llywodraeth y DU sicrhau bod y Mesur Cydraddoldeb yn cael ei basio a'i fod yn darparu fframwaith symlach a chryfach ar gyfer cydraddoldeb. Dylai Awdurdod Gweithredol Gogledd Iwerddon sicrhau hefyd bod Deddf Cydraddoldeb sengl yn cael ei phasio yng Ngogledd Iwerddon.

## Argymhellion i asiantaethau cynghori

**7** Dylai darparwyr cyngor yn lleol ac yn genedlaethol dynnu sylw at y diffyg mynediad at gyfiawnder sy'n wynebu pobl sydd â phroblemau gwahaniaethu a hawliau dynol.

**8** Dylai asiantaethau cynghori greu rhwydweithiau effeithiol ar gyfer cyngor ynglŷn â gwahaniaethu, gan ddwysáu eu gwaith â'i gilydd a'u perthynas â mudiadau a chymunedau cydraddoldeb: drwy ymgysylltu a thrwy addysg gyfreithiol gyhoeddus.

**9** Dylai darparwyr addysg anelu at ddarparu gwybodaeth hawdd cael gafael arni ac ymarferol i helpu eu cleientiaid ddeall a defnyddio hawliau dynol i herio eu sefyllfaoedd. Mae angen i fudiadau cynghori ddatblygu eu dealltwriaeth a'u hyfforddiant ynghylch sut i ddefnyddio cyfraith hawliau dynol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y ddarpariaeth gynghori.

**10** Mae angen i asiantaethau cynghori ddangos – drwy bolisi cymdeithasol a defnydd effeithiol o dystiolaeth – sut mae cyngor a gwaith achos gwahaniaethu yn cyfrannu at newid cymdeithasol a gwireddu hawliau dynol.

**11** Dylai mudiadau cynghori hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb o fewn eu mudiadau eu hunain, ac ymgyrchu dros amrywiaeth farnwrol.

# Ydy hynna'n gamwahaniaethu? Defnyddiau gwybodaeth gyhoeddus

Y wefan www.isthatdiscrimination.org.uk yw wyneb cyhoeddus y prosiect Y Daith tuag at Gydraddoldeb. Ei bwriad yw codi ymwybyddiaeth ynghylch materion yn ymwneud â chamwahaniaethu a hawliau dynol a rhoi hyder, gwybodaeth a sgiliau i bobl er mwyn iddynt allu gweithredu.

Mae'r wefan yn cynnwys yr adnoddau isod:

- **Cylchgrawn 'Sort It!'** – cylchgrawn i godi ymwybyddiaeth a gynlluniwyd i ddenu sylw'r rheini nad ydynt, o bosibl, yn sylweddoli eu bod yn cael eu camwahaniaethu yn eu herbyn, neu sy'n credu ei fod yn rhywbeth y maent yn gorfod ei oddef.
- **'Is that fair? How to recognise discrimination'** – canllaw
- **'You don't have to put up with it. How to deal with discrimination'** – canllaw
- **Got a problem?** – tudalen broblemau ryngweithiol lle gall defnyddwyr gael cyngor ynglŷn â'u problem gan ein hewythr doeth, sydd hefyd yn gyfreithiwr ym maes camwahaniaethu
- **Ffeiliau sain** lle gall defnyddwyr wrando ar bobl eraill sydd â phroblem camwahaniaethu

Gall asiantaethau cynghori, ac asiantaethau eraill sy'n wynebu'r cyhoedd, gael gafael ar y defnyddiau hyn yn www.isthatdiscrimination.org.uk.

Mae copïau caled ar gael gan fudiadau partner.

Sort it!

CONTENTS

What's discrimination? 2
You don't have to put up with it 2
Good boss, bad boss 4
In the news 5
Prejudiced pubs, bigoted bars and other shoddy services 6
Dear Richard 7
Jargon buster 8

Ever felt singled out? And, no, I'm not talking about not being able to find a partner but about being treated worse than others because of who you are. Take a Japanese friend of mine who lives in Edinburgh. Her neighbours are so noisy she can barely hear herself think. And they leave beer cans and broken bottles lying around all over the place even though the neighbourhood's full of kids. For a while, she just put up with it. But when she got pregnant she decided to have a word. The neighbours just shouted abuse at her and told her to go back where she came from.

It's not right to be singled out and treated worse than others because of who you are. Everyone has a right to be treated with respect and dignity. Yet things like this happen all the time. People are constantly singled out because they're black, they're pregnant, they're Jewish, they're gay or they have epilepsy, for example.

In fact, when was the last time something like this happened to you? Did you just put up with it? Because you don't have to. Many types of discrimination are against the law. And there are many support groups and advisers out there who can help you work out how to deal with discrimination.

YOUR LETTERS

No deaf awareness
I used to work in a video shop. A deaf couple came in all the time looking for dvds with English subtitles. It often didn't say on the box so they'd ask me to check on the dvd player in the store. Eventually my manager told me that this was a waste of my time and if she caught me doing it again, I'd be sacked. I didn't give her the chance – I left!

Race driver
During my driving lesson, a taxi pulled out in front of me without signalling. My instructor slammed on the brakes and started going on about how he wouldn't teach any 'Paki' because there were enough 'Paki taxis' on the road as it was.

MY MANAGER HAD NO DEAF AWARENESS!
MY DRIVING INSTRUCTOR WAS A RACIST!

Human rights and wrongs
When I went to visit my mother at the care home she lives in, I saw one of the staff slapping another resident because she'd accidentally dropped her breakfast on the floor. I was so shocked by what I'd seen and horrified at the thought that it might have happened to my own mother that I sent them a letter of complaint. They replied very quickly telling me that they had investigated my complaint and disciplined the staff member involved.

(Not only does this clearly break human rights law but it's also a criminal offence. The writer could have reported both that member of staff and the care home itself to the police – Ed)

www.isthatdiscrimination.org.uk • Sort it! 1


Is that fair?
How to recognise discrimination

Introduction

It's upsetting and humiliating to be singled out for worse treatment because of who you are – if your GP refuses to treat you because you're gay, for example, or you are made redundant from your job because you are pregnant. Treatment like this is called discrimination.

You have a right not to be discriminated against. It's completely unfair and, in many cases, against the law. If you think that you've been treated worse than others because of who you are, you've come to the right place. This guide will help you:

- understand what discrimination is
- recognise when someone might be discriminating against you
- work out what your rights are
- know where to get help.

This guide looks long, but don't be put off, you won't need to read it all at once. And we've colour-coded the sections to help you find your way around.

Contents

What's discrimination? 2
How do I know it's happening to me? 4
Anti-discrimination laws 5
Other rights 10
Where to get help 12
Jargon buster 15

www.isthatdiscrimination.org.uk • Is that fair? 1

# Rhaglen y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer Cyflogaeth ac Undod Cymdeithasol – Y Daith

Cefnogir y rhaglen hon gan Raglen y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer Cyflogaeth ac Undod Cymdeithasol – Y Daith (2007 – 2013).

Mabwysiadwyd Penderfyniad rhif 1672/2006 a oedd yn sefydlu Rhaglen gymunedol ar gyfer cyflogaeth ac undod cymdeithasol – Y DAITH – gan Senedd a Chyngor Ewrop ar 24 Hydref 2006 ac fe'i cyhoeddwyd yn y Cylchgrawn Swyddogol ar 15 Tachwedd 2006. Ei nod cyffredinol yw rhoi cefnogaeth ariannol i weithredu amcanion yr Undeb Ewropeaidd ym maes cyflogaeth a materion cymdeithasol fel y'u dynodwyd yn yr Agenda gymdeithasol a, thrwy hynny, gyfrannu at gyflawni nodau Strategaeth Lisbon yn y meysydd hyn.

Cenhadaeth y Daith yw cryfhau cyfraniad yr UE o ran cefnogi ymrwymiadau ac ymdrechion yr Aelod Wladwriaethau i greu mwy o swyddi a gwell swyddi, a chreu cymdeithas fwy cydlynol.

I'r perwyl hwnnw, mae'r DAITH yn cyflawni'r canlynol:

- darparu dadansoddiad a chyngor polisi ynghylch meysydd polisi y DAITH;
- monitro a llunio adroddiadau am weithredu deddfwriaeth a pholisïau'r UE ym meysydd polisi y DAITH;
- hyrwyddo trosglwyddo polisi, dysg a chefnogaeth ymhlith Aelod Wladwriaethau ynghylch amcanion a blaenoriaethau'r UE;
- cyfleu barn y rhanddeiliaid a chymdeithas yn gyffredinol.

Mae'r Rhaglen saith-blynedd yn targedu pob rhanddeiliad sy'n gallu helpu i lunio datblygiad deddfwriaeth a pholisïau priodol ac effeithiol ym maes cyflogaeth a chymdeithas, ledled y 27 o aelod wladwriaethau yn yr UE, Ardal Masnach Rydd Ewrop-Ardal Economaidd Ewrop (AMRE-AEE/EFTA-EEA), Gweriniaeth Macedonia yn yr hen Iwgoslafia a darpar wledydd yr UE a Serbia.

Am fwy o wybodaeth, ewch i:
http://ec.europa.eu/employment_social/progress/index_en.html

Nid yw'r wybodaeth a gynhwysir yn y cyhoeddiad hwn, o reidrwydd, yn adlewyrchu safbwynt na barn y Comisiwn Ewropeaidd. Nid yw'r Comisiwn yn atebol dros unrhyw ddefnydd y gellid ei wneud o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.

Cynhyrchwyd ar ran consortiwm y prosiect gan Cyngor Ar Bopeth – enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Rhif cofrestru'r elusen: 279057.

Ionawr 2009